

Troseddau Bwyd

Troseddau bwyd a sut i roi gwybod amdanynt

Dylai fod gan ddefnyddwyr hyder bod eu bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Mae troseddau bwyd yn dwyll difrifol sy'n effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid. Gall fod yn niweidiol iawn i ddefnyddwyr, busnesau bwyd a'r diwydiant bwyd ehangach.

Mae [Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd](#) (yr Uned) yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gweithio i atal, canfod ac ymchwilio i droseddau bwyd ledled y Deyrnas Unedig (DU).

Mathau o droseddau bwyd

Mae'r Uned yn canolbwyntio ar saith math o droseddau bwyd:

- **dwyn** – cael gafael ar gynhyrchion bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid mewn ffordd anonest er mwyn gwneud elw drwy eu defnyddio neu eu gwerthu
- **prosesu anghyfreithlon** – lladd neu baratoi cig a chynhyrchion cysylltiedig mewn safleoedd heb eu cymeradwyo neu drwy ddefnyddio technegau heb eu hawdurdodi
- **dargyfeirio gwastraff** – rhoi bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid sy'n wastraff yn ôl i mewn i'r gadwyn fwyd yn anghyfreithlon
- **difwyno** – gan gynnwys sylwedd estron nad yw ar label y cynnyrch i ostwng costau neu ffugio ansawdd uwch
- **amnewid** – amnewid bwyd neu gynhwysyn gyda sylwedd arall sy'n debyg ond yn israddol
- **cam-gynrychioli** – marchnata neu labelu cynnyrch yn anonest o ran ei safon, ei ddiogelwch, ei darddiad neu ba mor ffres ydyw
- **twyllo dogfennol** – gwneud, defnyddio neu feddu ar ddogfennau ffug gyda'r bwriad o werthu neu farchnata cynnyrch twyllodrus neu is-safonol

Atal troseddau bwyd

Gall troseddau bwyd ddigwydd mewn sawl ffordd. Gall amrywio o weithredoedd anonest untro gan droseddwyr unigol i weithgarwch anghyfreithlon wedi'i drefnu a gydlynir gan rwydweithiau troseddol.

Gellir lleihau troseddau bwyd trwy atal ffordd i droseddwyr gyflawni troseddau, neu drwy leihau'r tebygolrwydd y bydd unigolion a grwpiau'n dod yn droseddwyr yn y lle cyntaf.

Mae'r Uned yn gweithio gyda'r diwydiant bwyd i sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o risgiau troseddau bwyd ac yn gallu rhoi mesurau ar waith i ddiogelu eu hunain rhag troseddau bwyd.

Mae sicrhau nad oes croeso o fewn y sectorau cynhyrchu, gweithgynhyrchu a manwerthu bwyd i'r unigolion neu grwpiau sy'n bwriadu troseddu yn allweddol i atal troseddau bwyd.

Asesiad Strategol o Droseddau Bwyd 2020

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban (SFCIU) Safonau Bwyd yr Alban wedi cynhyrchu asesiad o fygythiadau troseddau bwyd i'r DU.

Mae'r Aseiad Strategol Troseddau Bwyd yn archwilio rhannau o'r gadwyn gyflenwi bwyd a allai fod yn agored i droseddau bwyd, yn ogystal â nodi bygythiadau sy'n dod i'r amlwg y mae angen mynd i'r afael â hwy.

[View Aseiad Strategol o Droseddau Bwyd 2020 as PDF](#) (1.14 MB)

Rhoi gwybod am droseddau bwyd

Gall aelodau'r cyhoedd a'r rhai sy'n gweithio yn y sector bwyd a diod roi gwybod am droseddau bwyd trwy ein llwyfan rhoi gwybod am [Droseddau Bwyd yn Gyfrinachol](#).

Mae achosion o hylendid bwyd gwael yn peri pryder i'r ASB, ond nid ydynt yn cael eu diffinio fel troseddau bwyd. Dylid [rhoi gwybod i'r awdurdod lleol](#) am bryderon hylendid, nid i'r Uned, os nad oes bwriad uniongyrchol i dwyllo.

Gall unrhyw un sy'n amau trosedd bwyd roi gwybod amdani'n ddiogel ac yn gyfrinachol i'r Uned. Gallwch chi [roi gwybod am drosedd bwyd ar-lein](#) neu dros y ffôn ar 0207 276 8787.